

RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â pharagraffau 10.5.1–10.5.4 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor i drafod y Rhybudd o Gynnig a ganlyn.

Mae'r Cynnig yn cael ei drafod fel mater brys oherwydd digwyddodd y trychineb a arweiniodd ato ar ôl y dyddiad ar gyfer cyflwyno Rhybudd o Gynnig. Bwriad y pwnc dan sylw yw rhoi sicrwydd i drigolion Rhondda Cynon Taf fod eu diogelwch ymhlith blaenoriaethau'r Cyngor.

Rhybudd o Gynnig wedi'i gyflwyno yn enwau:-

Y Cyngorwyr P.Jarman, G.Davies, E.Webster, S.Rees-Owen, M.Weaver, W.Jones, A.Chapman, S.Evans-Fear, D.Grehan, K.Morgan, J.Williams, A.Cox, D.Macey, H.Fychan, J.Davies, J.Cullwick, L.Jones, E.Stephens

“Mae'r Cyngor yma yn estyn ei gydymdeimlad dwysaf i'r holl deuluoedd yn Nŵr Grenfell a gaf odd eu hanafu neu a gollodd eu hanwyliaid yn y tân diweddar a gymerodd eu cartrefi. Rydyn ni hefyd yn talu teyrnged i'r gwasanaethau brys, y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans am gymryd rhan mewn achub pobl o'r tân mawr ac i'r llu o wirfoddolwyr a oedd yn cynorthwyo yn ystod y trychineb yma, ac wedi hynny.

Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yr awdurdodau lleol yn cynnwys blociau o fflatiau a gweithleoedd aml-lawr, a dydy'r Cyngor yma ddim yn eithriad. Mae angen sicrwydd ar y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y mannau hyn am ddiogelwch yr adeiladau hyn yn dilyn y digwyddiadau trychinebus ym Nŵr Grenfell.

O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yma, mewn ymgais i ddileu ofnau o'r fath, yn lansio proses Cymunedau Diogel ar y cyd â'r holl ddarparwyr tai yn Rhondda Cynon Taf, y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu, a rhanddeiliaid priodol eraill.

Diben y broses yw cynnal asesiadau risg i sicrhau bod pob bloc o fflatiau a phob adeilad aml-lawr arall yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu, rheoliadau tân, a safonau iechyd a diogelwch. Os bydd unrhyw risg yn cael ei amlygu, bydd rhaid i'r awdurdodau priodol ddefnyddio eu pwerau statudol ac ymyrryd i sicrhau bod yr eiddo'n ddiogel ac yn cydymffurfio â'r rheolau.

Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd yr asesiad, gan restru pob eiddo wedi'i archwilio a'r achosion o beidio â chydymffurfio, a'r camau unioni a fydd wedi'u cymryd.”